# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL YNYS MÔN
# Medi 2024 – Awst 2025

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**
**Aaron Evans**

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CYFLWYNIAD**

1.1 Cyflwyniad gan Gadeirydd y CYS(AG): Cynghorydd Non Dafydd

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYS(AG) Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Leol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Aelodaeth CYS(AG) Môn 2021-22
3.2 Cyfarfodydd CYS(AG) a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.3 Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYS(AG) sy'n mynychu sesiwn addoli ar y cyd mewn ysgol

## ADRAN 1: Cyflwyniad

**Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

**Mae'r gofynion ar gyfer ALlau mewn perthynas â Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a chynadleddau Maes Llafur Cytûn yn cael eu hamlinellu yn y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022, Rhan 3 Adran 9 (3.1A) a Rhan 3 Adran 7 (7) ac Adran 390 o'r *Education Reform Act 1996*.**

**Mae CYS(AG) yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd, Moeseg ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu corff achlysurol, y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygiadau i'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.**

### 1.1 Crynodeb y Cadeirydd CYS(AG)

Rhagair y Cadeirydd – Adroddiad Blynyddol 2024/25 – CYS Ynys Môn

Mae'n fraint, unwaith eto, fel Cadeirydd CYS Ynys Môn, i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2024/25. Mae'r flwyddyn hon wedi teimlo'n un arbennig o ysbrydoledig ac egniol. Wrth i ni barhau i lywio drwy dirwedd esblygol Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig o fewn maes 'Crefydd, Gwerthoedd ac Moeseg' (CGM), mae'n galonogol gweld hyder cynyddol ysgolion wrth iddynt fynd i'r afael â'r cyfnod newydd hwn o addysgu a dysgu. Mae'r cwestiynau sy'n cael eu codi yn rhai pwrpasol, ac mae'r trafodaethau wedi bod yn gyfoethog iawn.

Un datblygiad cadarnhaol a phwysig eleni yw penodiad parhaol Phil Lord fel ymgynghorydd i'n CYS. Mae cyfraniad Phil wedi bod yn amhrisiadwy — mae ei wybodaeth drylwyr o'r cwricwlwm CGM, ynghyd â'i eglurder a'i natur dawel wrth egluro syniadau cymhleth, wedi gwneud pob cyfarfod yn ystyrlon ac ysbrydoledig. Mae ei allu i arwain trafodaethau ac ymateb i gwestiynau yn fanwl ac yn ystyriol wedi codi safon ein gwaith yn sylweddol.

Mae'r gwaith o gryfhau ac ehangu'r aelodaeth wedi parhau. Ynghyd â Phil, hoffwn hefyd gydnabod ymdrechion parhaus Owen Davies, sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein pwyllgor yn adlewyrchu anghenion addysgol yr ynys, yn ogystal â'r amrywiaeth o leisiau sydd eu hangen o amgylch y bwrdd. Rydym yn gobeithio croesawu aelodau newydd dros y flwyddyn i ddod, gan sicrhau ein bod yn aros mor gynrychioliadol a gwybodus â phosibl.

Nodwyd bod Mrs Elaine Green, a fu'n cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y CYS yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, wedi ymddeol o'r rôl. Estynnwyd diolch i Mrs Green am ei chyfraniad gwerthfawr i'r CYS yn ystod y cyfnod hwnnw, a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Yn ein cyfarfod mwyaf diweddar, fe nodwyd hefyd ymddeoliad Edward Morus Jones o'i gyfnod hirsefydlog fel cynrychiolydd Ynys Môn ar CYSAG. Mae Edward wedi bod yn lais cyson ac ymroddedig dros nifer o flynyddoedd, ac mae ei angerdd dros addysg grefyddol a'r iaith Gymraeg wedi bod yn amlwg drwy'r amser. Byddwn yn ei golli'n fawr, ac estynnwn ein diolch diffuant a'n dymuniadau gorau iddo ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at groesawu cynrychiolydd newydd, a fydd, heb amheuaeth, yn dod â safbwyntiau ffres ac egni newydd i'r rôl.

Mae ymweliadau ag ysgolion wedi parhau i fod yn ffynhonnell wirioneddol o ysbrydoliaeth eleni. Cefais y pleser o ymuno â Dylan Rees ar ymweliad ag Ysgol y Graig, Llangefni, lle cawsom gyfle i weld sut mae'r ysgol wedi gwreiddio CGM yn ofalus trwy'r cwricwlwm. Un foment emosiynol

arbennig oedd yn ystod y gwasanaeth, lle perfformiodd y disgyblion ddrama i'w cyfoedion – perfformiad a ddwg llygad-ddagrau go iawn. Roedd yn atgof hyfryd o'r modd y gall plant archwilio ac mynegi syniadau mawr – gwerthoedd, cred, cymuned – drwy greadigrwydd a chwarae. Mae eiliadau fel hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ac effaith y gwaith rydym yn ei wneud. Bum hefyd yn eistedd mewn gwers Dyniaethau yn yr Ysgol Gyfun, ble roedd disgyblion yn cwestiynnu Moeseg drwy sefyllfaoedd dyddiol ein bywyd, a roedd gwrando â'r resymegolion pob disgybl wrth iddyn nhw gyrraedd eu canlyniadau personol ei hunain yn brofiad tu hwnt o ddiddorol.

Rydym yn gobeithio cynyddu nifer yr ymweliadau ag ysgolion yn y flwyddyn i ddod, gan roi mwy o gyfleoedd i aelodau'r CYS weld y cwricwlwm ar waith ledled yr ynys.

Ac i gloi, roedd yn fraint gwirioneddol i Ynys Môn gynnal cyfarfod WASACRE yn ystod yr haf — cyfle i arddangos ymrwymiad ac angerdd ein hysgolion tuag at CGM ar draws yr ynys.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y rhagair hwn. Rwy'n parhau i fod yn falch iawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan SACRE Ynys Môn, ac yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o waith ystyrlon a gwerthfawr.

Non Dafydd

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

**Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Mae'r gofynion ar gyfer ALlau mewn perthynas â Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a chynadleddau Maes Llafur Cytûn yn cael eu hamlinellu yn y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022, Rhan 3 Adran 9 (3.1A) a Rhan 3 Adran 7(7) ac Adran 390 o'r *Education Reform Act 1996*.

Mae CYS(AG) yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd, Moeseg ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu corff achlysurol, y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygiadau i'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYS(AG)au Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYS(AG) yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn eu Cynhadledd Maes Llafur Cytûn ar y 15fed o Chwefror 2022 i adolygu'r maes llafur ac i argymell maes llafur priodol i'r Awdurdod Lleol ei fabwysiadu.

Mabwysiadwyd y Maes Llafur Cytûn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i adlewyrchu canllawiau a ysgrifennwyd gan ymarferwyr ac arbenigwyr Addysg Grefyddol. Pwrpas y maes llafur yw darparu cefnogaeth ychwanegol ar sut y gellir addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym maes

Dyniaethau. Mae Maes Llafur Cytûn Ynys Môn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn seiliedig ar ganllaw Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r canllaw hwn yn pwysleisio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan annatod o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. Mae hefyd yn amlinellu cyfraniad unigryw a phenodol y pwnc i'r Cwricwlwm i Gymru.

Gellir cael mynediad at y canllaw isod:

- https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#canllawiau-ar-grefydd,-gwerthoedd-a-moeseg
- https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25, yn unol â'r newidiadau i Gwricwlwm i Gymru 2022, cafodd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ei addysgu i bob plentyn ysgol gynradd a phob dysgwr ym mlwyddyn 7, 8 a 9. Yn y flwyddyn academaidd 2024-25, parhaodd ysgolion uwchradd i addysgu'r cwricwlwm a oedd yn cael ei addysgu cyn 2022 (a elwir yn Cwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11.

Mae'r Maes Llafur Cytûn, mewn cydymffurfiad â gofynion y Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd, yn ymwneud â'r pwnc dan y teitl 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytûn blaenorol, sy'n dal i fod yn gymwys ar gyfer ysgolion uwchradd am y rhesymau y disgrifir uchod, yn ymwneud â'r pwnc dan y teitl 'Addysg Grefyddol'. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig.

Mabwysiadodd Ynys Môn y 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Cyflwyno Addysg Grefyddol i Ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' fel y Maes Llafur Cytûn Lleol ar gyfer 'Addysg Grefyddol' yn 2008. I lawrlwytho copi o'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, ewch i:

Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru - Hwb (gov.wales)

## 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYS(AG) Môn yn monitro safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- adolygu adroddiadau arolygiadau ESTYN i adnabod arferion da a chefnogi ymhellach unrhyw gyfeiriad at 'Addysg Grefyddol' neu 'addoli ar y cyd' sydd angen eu cryfhau;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd;
- annog cydweithio rhwng ysgolion i adnabod a chefnogi arferion da.

Derbyniodd aelodau CYS(AG) gyflwyniad gan 1 ysgol gynradd yn archwilio eu hymarfer sy'n dod i'r amlwg ar gyfer CGM ac AG.

Mae cyflwyniad wedi'i ddarparu i bob pennaeth uwchradd ynglŷn â'r disgwyliadau mewn perthynas â'r agwedd fandadol o CGM ac AG.

Derbyniodd un clwstwr cynradd gyflwyniad ynglŷn â'r agweddau mandadol o'r cwricwlwm CGM a'r newidiadau i Faes Llafur Cytûn Ynys Môn.

Adroddodd y Cadeirydd a Chynghorydd Dylan Rees yn ôl ar eu hymweliad i Ysgol y Graig lle bu iddynt arsylwi gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

### 2.3.1 Adroddiadau hunan-arfarnu ysgolion

**Ni adolygwyd unrhyw hunan arfarniadau ysgolion eleni ym maes Addysg Grefyddol oherwydd cydnabyddiaeth o gymaint o newidiadau ar y gweill a bod ysgolion angen amser i baratoi ar gyfer y newidiadau hynny. Ail-ddechreuodd Estyn arolygiadau ysgol yn nhymor yr haf 2022.**

**Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn**

Sicrhau bod yr adnoddau a'r arferion da a gyflwynir i aelodau CYS(AG) yn cael eu dosbarthu i ysgolion ar draws Ynys Môn.

Bydd yr ALl yn ystyried sut y bydd yn monitro Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Dyniaethau.

### 2.3.2 Adroddiadau arholiadau ysgolion

Oherwydd arweiniad parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data ac i osgoi cymharu ysgolion yn fympwyol, ni chyflwynwyd data arholiadau cymharol i aelodau ar gyfer arholiadau a wobrwywyd yn 2023/24 felly nid oedd modd iddynt ei drafod.

*Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o dueddiadau mewn niferoedd disgyblion sy'n dilyn Addysg Grefyddol TGAU.*

| Ysgol | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2019 | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2020 | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2021 | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2022 | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2023 | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2024 | Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSTJ | 25 | 14 | 17 | 21 | 31 | 40 | |
| YUC | 0 | 1 | 16 | 0 | 0 | 0 | |
| YGLl | 14 | 20 | 4 | 9 | 3 | 30 | |
| YDH | 33 | 31 | 51 | 24 | 52 | 33 | |
| YUB | 22 | 17 | 15 | 10 | 6 | 14 | |
| **Cyfanswm** | **94** | **83** | **103** | **64** | **92** | **117** | |

*Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r tueddiadau mewn niferoedd disgyblion sy'n dilyn Addysg Grefyddol Lefel A.*

| Ysgol | Nifer y Disgyblion Lefel A 2019 | Nifer y Disgyblion Lefel A 2020 | Nifer y Disgyblion Lefel A 2021 | Nifer y Disgyblion Lefel A 2022 | Nifer y Disgyblion Lefel A 2023 | Nifer y Disgyblion Lefel A 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSTJ | 13 | 8 | 8 | 7 | 2 | 8 | |
| YUC | 0 | 0 | 1 | 0 | | 0 | |
| YGLl | 6 | 0 | 3 | 2 | 2 | 0 | |
| YDH | 8 | 10 | 2 | 12 | 11 | 5 | |
| YUB | 2 | 7 | 6 | 3 | 4 | 3 | |
| **Cyfanswm** | **29** | **25** | **20** | **24** | **19** | **16** | |

**Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn**

Cefnogi ysgolion Môn i ddylunio cwricwlwm cyffrous a pherthnasol o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn ei dro yn annog mwy o ddisgyblion i astudio'r pwnc ymhellach fel pwnc

academaidd.

Mewn cydweithrediad â GwE, paratoi cydlynwyr Dyniaethau a fydd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer gofynion y Cwricwlwm i Gymru newydd ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Sicrhau bod gan ysgolion fynediad at ganllawiau ac arfer dda a fyddai'n gwella deilliannau addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

### 2.3.3 Adroddiadau Arolygu ESTYN

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cyflwynwyd adroddiadau arolwg 6 ysgol i aelodau CYS(AG). Arolygwyd ysgolion rhwng Gorffennaf 2024 a Mawrth 2025.

- Ysgol Gynradd Parc Y Bont
- Ysgol Gymuned Rhosybol
- Ysgol Gynradd Llanbedrgoch
- Ysgol David Hughes (Uwchradd)
- Ysgol Gymuned Bryngwran
- Ysgol Gynradd Bodedern

Nid oes unrhyw farn ar bynciau yn y fframwaith arolygu Estyn presennol. Yn hytrach, mae aelodau'n derbyn gwybodaeth o'r adroddiadau sy'n ymwneud â sylwadau Estyn am ddarpariaeth ysgolion o SMSC.

Nid oes disgwyl i arolygwyr adrodd a yw ysgol yn cyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Byddai disgwyl sylwad yn yr adroddiad pe bai ysgol yn cael ei chanfod yn groes i'w dyletswydd statudol.

Fel rhan o'r broses o fonitro, dadansoddir adroddiadau arolygu Estyn am sylwadau ar addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC). Mae'r rhain yn cael eu llunio a'u nodi gan CYS(AG).

Nid yw adroddiadau arolwg dwy o'r ysgolion yn cyfeirio at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addoli ar y Cyd na'u datblygiad ysbrydol a moesegol. Nid oedd meysydd datblygiad wedi'u nodi ar gyfer CGM, AG nac addoli ar y cyd.

### 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

- Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytûn ar gyfer CGM adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol. Roedd cynnwys 'Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol' eisoes wedi'i gynnwys ym Maes Llafur Cytûn Môn. Diwygiwyd cyfansoddiad CYS(AG) Ynys Môn i gynnwys aelodaeth o Ddyneiddwyr Prydain (BHA) fel rhan o Bwyllgor A. Mae aelod o'r BHA yn eistedd ar Bwyllgor A.
- Mae Phil Lord yn parhau i gael ei gomisiynu gan yr ALl fel ymgynghorydd proffesiynol i gefnogi gwaith CYS(AG) Môn.
- Derbyniodd aelodau'r CYS(AG) gyflwyniad gan Jennie Downs (Myfyriwr Meistr Prifysgol Bangor) ar effaith cyfieithiad 1588 o'r Beibl ar ysbrydolrwydd Cymru.
- Derbyniodd aelodau gyflwyniad gan Ysgol Rhyd y Llan i archwilio'r arferion sy'n dod i'r amlwg ynghylch cynllunio CGM yn y sector cynradd.
- Mae rhwydwaith CGM ysgolion uwchradd wrthi'n cael ei ddatblygu o ganlyniad i gyfarfod gyda'r penaethiaid uwchradd.
- Mae adnoddau a grëir fel rhan o Gynhadledd CYSAGauC (haf 2023) yn parhau i fod ar gael i holl ysgolion Môn.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

- Hysbyswyd aelodau CYS(AG) o adnoddau Dysgu Proffesiynol yn cefnogi'r rôl allan o'r cwricwlwm newydd, a grëwyd gan gydweithrediad Llywodraeth Cymru a CCYSAGauC. Cyhoeddwyd yr adnoddau hyn yn haf 2024: [Repository - Hwb (gov.wales)]

**Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

Parhau i sicrhau bod pob athro yn ymwybodol o'u Maes Llafur Cytûn Medi 2022.

Cynnal adolygiad o gyfansoddiad y Pwyllgor CYS(AG) i ymateb i'r gofynion yn y Maes Llafur Cytûn.

Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' yn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau a gwneud defnydd llawn o adnoddau HWB.
Parhau i hwyluso athrawon Addysg Grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYS(AG) Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu.

## 2.6 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i GYS(AG) i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac i ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "bennu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYS(AG) ac ysgolion Môn wedi derbyn dogfennau addoli ar y cyd yn flaenorol:
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYS(AG)au Cymru, Mehefin 2013)
- 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)
- 'Diweddariad i Arolygwyr' (ESTYN, Ebrill 2018). Amlygwyd y dyfyniad hwn yn y canllaw:
  *'[E]fallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4.Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.'*
- Mae CYS(AG) Môn yn monitro safon addoli ar y cyd mewn ysgolion drwy adolygu adroddiadau hunan-arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.
- Cyn Covid-19, roedd y CYS(AG) yn defnyddio *pro-forma* i gofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau.
- Adroddodd y Cadeirydd a Chynghorydd Dylan Rees yn ôl ar eu hymweliad i Ysgol y Graig lle bu iddynt arsylwi gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn**

Parhau ag ymweliadau drwy wahoddiad i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Aelodaeth CYS(AG) Môn Medi 2023

**Pwyllgor A**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch. Sue Altree |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Parch. Debra Stammers |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Elaine Green/Huw Owen |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Parch. Neil Ridings |
| Undeb yr Annibynwyr | Edward Morus Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Collette Owens |
| Methodist | Gwag |
| Cynrychiolydd Islam | Gwag |
| Tyst Jehofa | Gwag |
| Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain | Sarah Kingman |

**Pwyllgor B (Cydgysylltiadau Athrawon)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Santes Dwynwen | Manon Morris Williams |
| Ysgol Cybi | Owain Roberts |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Heledd Heam |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Mefys Jones-Edwards |

**Pwyllgor C (Cynghorwyr)**

Non Dafydd, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Arfon Wyn
(Sedd wag x2)

| | |
|---|---|
| Cynghorydd | Non Dafydd (Cadeirydd) |
| Cynghorydd | Gwilym O Jones |
| Cynghorydd | Dylan Rees |
| Cynghorydd | Arfon Wyn |
| Cynghorydd | Keith Roberts (Gwanwyn a Haf) |
| Cynghorydd | Alwen P Watkin (Gwanwyn yn unig) |

**Aelodau Cyfetholedig (di-bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Eglwysi Ynghyd Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Owen T Davies | Uwch Swyddog Cynradd, Addysg |
| Mr Phil Lord | Ymgynghorydd AGM |
| Shirley Cooke | Swyddog Pwyllgorau |

### 3.2 Cyfarfodydd CYS(AG) 2023-2024

Darperir crynodeb o drafodaethau cyfarfodydd CYS(AG) yn yr Adroddiad Blynyddol. Yn ystod 2024-25, bu i CYS(AG) Môn gyfarfod yn rhithiol ac wyneb yn wyneb ar dri achlysur:

17 Hydref 2024
13 Chwefror 2025
10 Gorffennaf 2025

Gellir cyrchu'r holl agendâu a chofnodion ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

**3.3: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYS(AG) Ynys Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

**<u>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol</u>**

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn:
- ysgol arbennig ☐
- ysgol gynradd ☐
- ysgol uwchradd ☐

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd:
- torfol/ysgol gyfan ☐
- dosbarth ☐
- cyfnod allweddol ☐

Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd:
- y pennaeth ☐
- disgyblion ☐
- athro/athrawon ☐
- arweinydd crefyddol lleol ☐
- rhiant/rhieni ☐
- llywodraethwr ☐

Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para:
- llai na 5 munud ☐
- rhwng 5-10 munud ☐
- rhwng 10-15 munud ☐
- dros 15 munud. ☐

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ____________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan ddisgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn/carol Gristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau i ddisgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:
- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu'n fyd-eang
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall: